

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# PECYN CAIS
# AM
# SWYDD

www.tancgc.gov.uk

# Rhagarweiniad

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am ddangos diddordeb mewn ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Fy ngweledigaeth i ar gyfer ein Gwasanaeth yw iddo 'fod yn arweinydd byd mewn ymateb brys a diogelwch cymunedol.' Er bod gennym hanes balch o gyflawni, rydym yn gwybod bod yna le i wella bob amser.

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ymladdwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud Canolbarth a Gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

Heb fod gennym swyddogaethau cymorth corfforaethol yn eu lle er mwyn darparu'r systemau, y prosesau a thechnoleg, ni fyddai'r Gwasanaeth yn gallu darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cymunedau.

Os ydych chi'n chwilio am yrfa gydag amrywiaeth, her a chyfleoedd i symud ymlaen, ynghyd â'r holl fanteision y byddech chi'n eu disgwyl gan sefydliad gwasanaeth cyhoeddus allweddol, yna beth am ystyried ymuno â ni yn un o'n swyddogaethau cymorth arbenigol neu weinyddol?

Diolch a phob lwc,





**Craig Flannery**
Y Prif Swyddog Tân

Pecyn Cais am

# Buddion

Mae gweithio i'r Gwasanaeth yn agor y drws i bortffolio cyfan o fuddion all wella eich ffordd o fyw nawr ac i'r dyfodol.

**Cyfraddau cyflog cystadleuol -**
wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol -**
Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.2% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).

**Gwyliau Blynyddol hael –**
26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.

**Cynllun Hyblyg –**
Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.

- Parcio am ddim ar y safle
- Beicio i'r gwaith
- Cynllun disgownt i staff
- Iechyd a Lles

- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân

# Sut i wneud cais

Mae'r wybodaeth a ddarperir ar y ffurflen gais yn wybodaeth allweddol a bydd yn cael ei defnyddio yn y broses o lunio rhestr fer. Mae'n bwysig felly bod y nodiadau canllaw isod yn cael eu dilyn wrth lenwi'r ffurflen gais. Bydd hyn yn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch a fydd eich enw yn cyrraedd y rhestr fer ar gyfer cyfweliad. Bydd llunio'r rhestr fer yn cynnwys asesu'r manylion a ddarperir ar y ffurflen gais yn erbyn y meini prawf a amlinellir yn y Fanyleb Person a ddarperir.

Derbynnir ceisiadau mewn fformatau eraill pan fydd ymgeisydd yn cael anhawster i gwblhau'r ffurflen safonol o ganlyniad i anabledd.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i chi anfon eich cais?

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais, byddwn yn gwahanu'r ffurflen monitro cyfle cyfartal na fydd yn rhan o'r broses ddethol ac yn anfon y ffurflen gais yn unig i'r adran sy'n llunio'r rhestr fer. Byddwn yn anfon cydnabyddiaeth o'i dderbyn at bob ymgeisydd.

Bydd eich cais wedyn yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf (mewn manyleb person) a bydd y panel sy'n llunio'r rhestr fer yn penderfynu a ellir eich cynnwys ar y rhestr fer.

Os na chaiff eich enw ei roi ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, fe'ch hysbysir yn ysgrifenedig, fel arfer cyn pen chwe wythnos i'r dyddiad cau. Os nad ydych wedi clywed gennym erbyn hynny, cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda.

Os caiff eich enw ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad, byddwch yn derbyn e-bost oddi wrthym cyn pen 2-3 wythnos i'r dyddiad cau fel arfer, yn nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfweliad. Bydd yr e-bost hefyd yn cynnwys manylion y profion asesu sydd i'w cynnal a bydd yn rhoi rhestr o'r ddogfennaeth y mae'n ofynnol i chi ei chario gyda chi, os yw'n berthnasol i'r rôl.

**Yn unol â gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Gwasanaeth, mae angen datgeliad safonol fel isafswm ar gyfer pob rôl.**

**Bydd rhai rolau yn amodol ar lefelau uwch o wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, yn dibynnu ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r rôl, ac fel y'u dynodir gan y Pennaeth Rheoli neu'r Adran berthnasol.**

**Lle mae gofyniad wedi'i nodi am wiriad lefel uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, nodir y lefel a'r cyfiawnhad ar gyfer hyn isod:**

**LEFEL:** ...

**CYFIAWNHAD:**

**PARATOWYD:** **DYDDIAD ADOLYGU:**

# Manylion am y Gwasanaeth



rydym yn gwasanaethu
**4500**
cilometr sgwâr
(11,700 km$^2$)
o Gymru

Crëwyd y Gwasanaeth ym 1996 gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994, yn dilyn uno Brigadau Tân Dyfed, Powys a Gorllewin Morgannwg. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gwasanaethu ardaloedd y Cynghorau Sir canlynol:

Mae'r Gwasanaeth yn cyfrif am bron i ddwy ran o dair o Gymru, gan gwmpasu ardal wledig yn bennaf sy'n 11,700 km² (4,500 milltir sgwâr), gyda 650km o arfordir. Mae'r Gwasanaeth, sydd â'i Bencadlys yng Nghaerfyrddin, yn cyflogi 1300 o staff, gydag ychydig dros 1100 o'r rheini wedi'u lleoli mewn un o 58 o orsafoedd ar draws tair Isadran. Mae gan y Gwasanaeth y trydydd teneurwydd poblogaeth uchaf yng Nghymru a Lloegr ac mae yna 900,000 o bobl yn byw oddi mewn i ardal ein Gwasanaeth. Mae'r nifer hwn yn cynyddu i dros 2 filiwn yn sgil twristiaeth yn ystod misoedd yr haf.

Dyma'r trydydd Gwasanaeth Tân ac Achub mwyaf yn ddaearyddol yn y Deyrnas Unedig, yn dilyn Gwasanaethau Tân ac Achub yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae hyn ynddo'i hun yn cyflwyno ystod o heriau gwahanol.

Ceir nifer o risgiau o wahanol fath oddi mewn i ardal y Gwasanaeth, yn amrywio o'r diwydiannau petrocemegol yn Aberdaugleddau, i'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd poblog iawn fel Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae yma hefyd gymuned ffermio fawr a llawer o ddiwydiannau ysgafn eraill ar hyd ac ar led yr ardal.

Mae'r rhain, ynghyd ag arfordir helaeth a dyfrffyrdd mewndirol, yn creu rhai o'r risgiau arbenigol sydd i'w cael oddi mewn i'r Gwasanaeth.

gyda phoblogaeth o
**910,000**
yn byw mewn
**434,500**
o gartrefi

cydymffurio
**58**
o orsafoedd tân
gyda
**1350**
o staff

**402** Llawn amser
**702** Ar alwad
**23** Canolfan rheoli tân ar y cyd
**243** Staff cynorthwyol

# Proffil Swydd

Cyflog: Gradd 6 - £33,119 – 34,811

**MANYLION AM Y SWYDD HON**

**Mae hon yn swydd Cymraeg hanfodol.** *Rhoddir hyfforddiant llawn ar bob agwedd o ddiogelwch tân a Diogelu sydd ynghlwm â'r swydd. Rydym yn chwilio am sgiliau trosglwyddadwy.*

Lleolir y swydd ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghaerfyrddin (Rhanbarth y Gorllewin). Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n bennaf mewn sefydliadau addysgol ar draws Sir Gâr a Sir Benfro. Cynigir polisi gweithio hyblyg.

Prif nod y swydd hon yw darparu Addysg Diogelwch trwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân a lleihau risg. Mae ein hamcanion yn galluogi plant a phobl ifanc i:

- Adnabod peryglon tân yn y cartref ac o'i gwmpas.
- Deall pwysigrwydd profi larymau mwg
- Trafod a chynllunio llwybrau dianc rhag tân gyda'u rhieni neu warcheidwaid.
- Gael eu grymuso i wrthsefyll pwysau cyfoedion, mewn perthynas â throseddau tân fel llosgi bwriadol a galwadau ffug, ac i wneud penderfyniadau da yn seiliedig ar leihau risg.

Bydd deiliad y swydd hefyd yn ymgysylltu â'r cyhoedd drwy gyfrannu at bob agwedd o waith Diogelwch Cymunedol gan gynnwys cwblhau ymweliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, mynychu digwyddiadau a chefnogi aelodau eraill o'r tîm yn ôl yr angen, yn unol â'r disgrifiad swydd. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd hefyd ymgymryd â'r holl hyfforddiant sydd ei angen i fod yn aml-fedrus ac i ymrwymo i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus.

**Y Person**

Bydd gennych gymhwyster addysgu neu hyfforddi neu brofiad cyfatebol. Byddwch yn gallu gweithio'n annibynnol heb oruchwyliaeth, ond hefyd yn chwaraewr tîm, sy'n hyblyg ac yn barod i addasu i newidiadau. Bydd gennych sgiliau cyfathrebu rhagorol yn ysgrifenedig ac ar lafar, yn ogystal â'r gallu i addasu eich dull cyflwyno i weddu i anghenion y gynulleidfa. Mae sgiliau rheoli ystafell ddosbarth yn hanfodol, yn ogystal â gafael ardderchog ar becynnau meddalwedd Microsoft. Mae agwedd broffesiynol, dibynadwyedd, cadw amser rhagorol a'r gallu i reoli eich llwyth gwaith ac i flaenoriaethu tasgau yn hanfodol. Byddwch yn talu sylw i fanylion, yn drefnus ac yn gallu cwblhau tasgau o fewn amser penodol. Byddwch yn barod i gynyddu eich sgiliau a'ch gwybodaeth trwy ymrwymo i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus ac yn barod i gynorthwyo gyda paratoi gwersi.

*Ceir mwy o wybodaeth am waith y Gwasanaeth Tân gyda phlant a phobl ifanc ar ein gwefan:* *www.mawwfire.gov.uk/cym*

# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **TEITL Y SWYDD:** | Swyddog Addysg Cymunedol |
| **SAFLE/RÔL:** | Gradd 6 |
| **CYFEIRNOD Y SWYDD:** | |
| **LLEOLIAD:** | Hwb Aberystwyth |
| **YN GYFRIFOL I:** | Ymgynghorydd Addysg |
| **PRIF DDIBEN Y SWYDD:** | Darparu addysg a chyngor ar ddiogelwch i ysgolion, y Gymuned a chyrff eraill fel y bo'n briodol.<br><br>Darparu negeseuon sy'n ymwneud â diogelwch, gan gynnwys ymweliadau Diogel ac Iach, i'r cymunedau ehangach a chyrff eraill fel y bo'n briodol.<br><br>Cefnogi gweithgareddau'r Adran Diogelwch Cymunedol ar draws ardal y Gwasanaeth pan fo angen. |

| ATODLEN O GYFRIFOLDEBAU | YN GYFRIFOL I |
|---|---|
| 1. Cyflwyno negeseuon addysg yn ymwneud â diogelwch mewn sefydliadau addysgol, ar draws yr ystod oedran a gallu gan gynnwys y cwricwlwm amgen, addysg ddewisol yn y cartref ac anghenion dysgu ychwanegol | Ymgynghorydd Addysg |
| 2. Bod yn gyfrifol am drefnu apwyntiadau y cytunwyd arnynt gydag ysgolion, gan flaenoriaethu ymweliadau a chadw cofnodion cywir o apwyntiadau. Bod yn gyfrifol am ganslo ac aildrefnu unrhyw apwyntiadau pan fo angen | Ymgynghorydd Addysg |
| 3. Rhoi cyngor i Athrawon ac aelodau'r cyhoedd ynglŷn â'r gwasanaethau sydd ar gael, e.e. Rhaglen Ymyrraeth Cyneuwyr Tanau, ymweliadau Diogel ac Iach, ac ymyriadau ieuenctid perthnasol | Ymgynghorydd Addysg |
| 4. Ymgynghori ag Ymgynghorydd Safonau Addysg y Gwasanaeth i sicrhau ansawdd, cysondeb yn y ddarpariaeth addysg, a'r wybodaeth ddiweddaraf am gysylltiadau gwaith cymunedol mewn perthynas â chynlluniau Plant a Phobl Ifanc | Ymgynghorydd Addysg |
| 5. Ymgynghori â'r Swyddogion Arweiniol ar gyfer Diogelwch Cymunedol, y Rheolwyr Diogelwch Cymunedol a chynrychiolwyr o asiantaethau partner a'r gwasanaethau cyhoeddus i sicrhau bod negeseuon diogelwch yn cael eu cyflwyno i blant a phobl ifanc a'r cymunedau ehangach | Ymgynghorydd Addysg |
| 6. Darparu cefnogaeth i fentrau'r gwasanaeth tân e.e. Rhaglen Ffenics, fel rôl eilaidd i'r rhaglen addysg | Ymgynghorydd Addysg |
| 7. Cynorthwyo i ddarparu gwaith Diogelwch Cymunedol ym mhob ardal Ranbarthol yn unol â chyfarwyddyd Pennaeth yr Adran Diogelwch Cymunedol. Gall hyn ar adegau gynnwys gweithio ar benwythnosau, Gwyliau Banc a gyda'r nos. Bydd amser yn cael ei roi yn ei le neu daliad y cytunwyd arno | Ymgynghorydd Addysg |
| 8. Cynorthwyo a darparu cefnogaeth i orsafoedd o ran diogelwch cymunedol ar ffurf Ffeiriau, Galâu, Diwrnodau Agored, ymweliadau â gorsafoedd a digwyddiadau cymunedol eraill | Ymgynghorydd Addysg<br>Rheolwr Gwylfa Diogelwch Cymunedol |

| | |
|---|---|
| 9. Cefnogi digwyddiadau partneriaeth trwy fynychu cyfarfodydd priodol a sicrhau cydlynu a darparu negeseuon diogelwch, offer, adnoddau a lefelau staffio yn ôl yr angen | Ymgynghorydd Addysg |
| 10. Hysbysu ac addysgu'r gymuned i wella ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â diogelwch trwy gyflwyno sgyrsiau Diogelwch Cymunedol, cynnal ymweliadau Diogel ac Iach, a gwerthusiadau Diogel ac Iach. Cofnodi canfyddiadau'n briodol gan ddefnyddio systemau cofnodi rheolaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub i sicrhau cywirdeb y trywydd archwilio | Ymgynghorydd Addysg |
| 11. Sicrhau y cedwir at weithdrefnau a pholisïau Diogel ac Iach trwy hyfforddi staff y Gwasanaeth Tân ac Achub ac asiantaethau partner ar sut i gynnal Ymweliadau Diogel ac Iach. Ymgynghori â'r Rheolwr Diogelwch Cymunedol i sicrhau ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth | Ymgynghorydd Addysg |
| 12. Ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles plant, pobl ifanc a'r cymunedau ehangach drwy roi gwybod am bryderon I Swyddog Diogelu’r Gwasanaeth a / neu'r Tîm Diogelu | Ymgynghorydd Addysg |
| 13. Sicrhau bod y darpariaethau Iechyd a Diogelwch a'r Gorchmynion Gwasanaeth perthnasol sy'n rheoli'r defnydd o gerbydau a chyfarpar y Gwasanaeth yn cael eu bodloni. Dilyn holl bolisiau a gweithdrefnau’r Gwasanaeth. | Ymgynghorydd Addysg |
| 14. Ymgynghori gyda’r Ymgynghorydd Addysg i sicrhau lefelau stoc digonol o lenyddiaeth addysg Diogelwch Rhag Tân i'w dosbarthu mewn ysgolion | Ymgynghorydd Addysg |
| 15. Cofnodi’r dyletswyddau Diogelwch Cymunedol, taflenni amser personol a’r gweithgareddau a gyflawnir yn ôl y cyfarwyddyd, ar systemau cyfrifiadurol ac ar bapur. | Ymgynghorydd Addysg |
| 16. Cefnogi Ymgynghorydd Addysg y Gwasanaeth gyda’r gwaith o ddatblygu adnoddau addysg a chynlluniau gwersi | Ymgynghorydd Addysg |

## GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

## MANYLEB Y PERSON

| | |
|---|---|
| **TEITL SWYDD** | Swyddog Addysg Gymunedol |
| **LLEOLIAD** | |
| **RHIF Y SWYDD** | |
| **GRADDFA** | Gradd 6 |
| **ADRAN** | Yr Adran Lleihau Risg Cymunedol |
| **GWIRIAD GDG** | Datgeliad Manylach |

Sicrhewch eich bod yn mynd i'r afael â'r gofynion canlynol yn eich Ffurflen Gais gan y byddant yn cael eu defnyddio at ddibenion llunio rhestr fer. Dylech ddarparu tystiolaeth glir sy'n dangos eich bod yn cwrdd â phob maes yn seiliedig ar eich sgiliau, gwybodaeth, profiad a galluoedd sy'n berthnasol i'r swydd.

| Ffactor | Tystiolaeth | Hanfodol / Dymunol | Dull Asesu |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau** | Cymhwyster Addysgu Priodol e.e. T.A.R., Lefel 3 mewn Addysgu a Hyfforddiant neu brofiad addas a pherthnasol<br><br>Trwydded yrru gyfredol | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | **Thystysgrifau** |
| **Gwybodaeth** | Gwybodaeth a phrofiad o dechnegau rheoli dosbarth effeithiol a'r gallu i addasu arddull cyflwyno mewn ymateb i amrywiaeth o anghenion ac arddulliau dysgu.<br><br>Gwybodaeth am y Cwricwlwm yng Nghymru. | **Hanfodol***<br><br>Dymunol | **Ffurflen gais a chyfweliad** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Profiad** | Gallu profedig o weithio'n effeithiol ar eich liwt eich hun ac fel rhan o dîm.<br><br>Gallu profedig i weithio'n effeithiol i derfynau amser tynn a chadw cofnodion cywir.<br><br>Profiad perthnasol o addysgu neu hyfforddi mewn sefyllfa grŵp neu ystafell ddosbarth<br><br>Profiad o greu adnoddau dysgu. | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>Dymunol | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| **Sgiliau sy'n gysylltiedig â'r Swydd/Personol** | Y gallu i ddefnyddio pecynnau Microsoft (Outlook, PowerPoint, Word) a / neu raglenni TG eraill<br><br>Sgiliau cyflwyno effeithiol o flaen cynulleidfa o blant a phobl ifanc neu oedolion, ynghyd â sgiliau cyfathrebu rhagorol.<br><br>Ymwybyddiaeth o ofynion Diogelu.<br><br>Parodrwydd i ddatblygu eich sgiliau ymhellach drwy fynychu cyrsiau hyfforddi a/neu gyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus er mwyn cynyddu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o rôl y Gwasanaeth Tân ac Achub wrth addysgu Plant a Phobl Ifanc.<br><br>***Rhaid** i ddeiliad y swydd fod yn barod i ymgymryd â'r holl hyfforddiant perthnasol i ddod yn aml-fedrus; gall hyn gynnwys hyfforddiant ar y Maes Ymarfer (Drill Ground), dringo ysgolion, gosod larymau batri, Diogelu a mwy yn ôl y galw. | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol***<br><br>Dymunol<br><br>**Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |
| **Cyfathrebu** | Safon uchel o sgiliau ysgrifenedig a llafar Cymraeg<br><br>Safon uchel o Saesneg ysgrifenedig / llafar | **Hanfodol***<br><br>**Hanfodol*** | **Ffurflen gais a Chyfweliad** |

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

www.tancgc.gov.uk